# Rhannwch eich barn ar ein canllawiau newydd ar dynnu a galw bwyd yn ôl

Mae ein hymgynghoriad ar agor rhwng 7 Ionawr a 4 Chwefror.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol sy'n rhan o'r system tynnu a galw bwyd yn ôl yn y Deyrnas Unedig (DU). Bydd yn rhoi cyngor ar arfer da ac yn helpu busnesau bwyd i gydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

Mae'r canllawiau'n cynnwys cyngor ar y canlynol:

- Systemau olrhain bwyd
- Gwneud penderfyniad i dynnu neu alw bwyd yn ôl
- Rolau a chyfrifoldebau y rhai sy'n tynnu a galw bwyd yn ôl
- Sut i gynllunio a rheoli achos o dynnu neu alw bwyd yn ôl
- Y prif egwyddorion er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr yn effeithiol am fwyd sydd wedi'i alw'n ôl, gan gynnwys enghraifft o hysbysiad pwynt gwerthu i'w ddefnyddio mewn siopau manwerthu

Meddai Philip Randles, Pennaeth Digwyddiadau a Gwydnwch yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

"Mae'r canllawiau hyn wedi'u llunio gan roi ystyriaeth i fusnesau bwyd, er mwyn eu helpu nhw i dynnu a galw bwyd yn ôl er diogelwch yn haws ac yn fwy effeithiol. Maen nhw wedi'u datblygu mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o'r diwydiant bwyd, awdurdodau gorfodi a sefydliadau defnyddwyr ac mae'n ganlyniad allweddol o'n hadolygiad ar y cyd gyda Safonau Bwyd yr Alban o system bresennol y DU.

"Croesawn adborth. Bydd yr ymatebion a gawn yn ein helpu ni i sicrhau bod y canllawiau o fudd ac o ddefnydd i fusnesau os bydd digwyddiad diogelwch bwyd."

Gweld tudalen yr ymgynghoriad.

I roi adborth, anfonwch e-bost at Debbie.Sharpe@food.gov.uk